

Cytundeb claf i imiwnotherapi atalydd bwynt gwirio

(Ychwanegwch enw'r rheolaeth/protocol)

Ysbyty/Ymddiriedolaeth GIG/Bwrdd y GIG:

Ymgynghorydd cyfrifol:

Enw: _____

Teitl swydd: _____

Manylion y claf

Cyfenw/enw teulu'r claf: _____

Enw(au) cyntaf y claf: _____

Dyddiad geni: _____

Rhif GIG: _____
(neu ddynodwr arall)

Gofynion arbennig:
(e.e. iaith/dull cyfathrebu arall)

Enw'r cwrs triniaeth arfaethedig (ychwanegwch esboniad byr os nad yw'r term meddygol yn glir.
Cynhwyswch enw trefn neu brotocol a rhestrwch enwau cyffuriau yn llawn. Nodwch y dynodiad, llwybr,
amserlen gweinmyddu a lleoliad y driniaeth.)

Cynllun: _____

Arwydd ar gyfer triniaeth (y math o ganser): _____

Llwybr(au) gweinyddu (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

☐ Mewnwythinnol ☐ Isgroenol ☐ Geneuol ☐ Arall: _____

Amlder (diwrnodau triniaeth a hyd y cylch): _____

Hyd y driniaeth (nifer y cylchoedd): _____

☐ Rhaid llenwi ffurflen gydsyniad ar wahân ar gyfer radiotherapi

☐ Cymryd rhan mewn treial clinigol (enw treial): _____

Ble byddaf yn cael triniaeth?

☐ Claf allanol ☐ Uned/achos dydd ☐ Claf mewnol ☐ Arall: _____

Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

Y buddion a fwriedir (nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch canlyniad)

☐ Iachael – i roi'r cyfle gorau posibl i chi gael gwella.

☐ Rheoli clefyd neu liniarol - nid gwella yw'r nod, ond rheoli neu leihau'r clefyd a gwella ansawdd bywyd a goroesi.

☐ Adjiwfant – therapi a roddir ar ôl llawdriniaeth neu radiotherapi i leihau'r risg y bydd y cancer yn dychwelyd.

☐ Neo-adjwfant - therapi a roddir cyn llawdriniaeth neu radiotherapi i leihau'r cancer, caniatáu triniaeth a leihau'r risg y bydd y cancer yn dychwelyd

I'w gadw yn nodiadau'rclaf
Paratowyd gan y Fferyllydd: Lucy Cox
Gwiriwyd gan y Meddyg Ymgynghorol: Clare Barlow
Cymeradwywyd gan: Janine Mansi Bwrdd SACT DU

Dyddiad cyhoeddi: Tach-23; Fersiwn: 3; Dyddiad adolygu:
Tachwedd-26
Gwiriwch cruk.org/sact_consent am y fersiwn diweddaraf
Enw Cynllun/Protocol: _____

Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

Dynodydd/label claf

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y weithdrefn arfaethedig, fel y nodir ym mholisi caniatâd yr ysbyty/Ymddiriedolaeth/Bwrdd y GIG)

- ☒ Ticiwch bob blwch perthnasol
- ☐ Cadarnhaf fod gan y claf alluedd i roi caniatâd.
- ☐ Rwyf wedi egluro cwrs y driniaeth a'r budd a fwriedir i'r claf.

Efallai y bydd gennych un neu fwy o'r sgîl-ffeithiau a restrir

- ☐ Mae'r driniaeth hon yn gweithredu ar eich system imiwnedd a gall achosi llid mewn rhannau o'r corff. Gall hyn achosi sgîl-ffeithiau difrifol a all fygwth bywyd. Mae'n bwysig trin sgîl-ffeithiau yn gyflym i'w hatal rhag gwaethygu. Gall rhai sgîl-ffeithiau ddechrau yn ystod y driniaeth neu fisoedd ar ôl hynny.
 - ☐ Yn gyffredin, llid:
 - Stumog neu goluddyn: poen yn y bol, dolur rhydd, mwcws neu waed yn y carthion
 - Croen: brech, cosi, cochni, colli lliw (mae adweithiau difrifol sy'n achosi pothellu, plicio, briwiau, wlserau yn brin)
 - Cymalau a chyhyrau: anystwythder, cur, poen, llid y cymalau
 - Chwarennau hormonau (thyroid, pitwïdol, adrenal, pancreas): lefelau hormon thyroid uchel neu isel, cur pen, blinder, cosi, golwg aneglur neu ddwbl, anghofrwydd, siwgrau gwaed uchel (diabetes yn anaml)
 - Afu: y croen neu'r llygaid yn melynu, wrin tywyll, poen yn y bol
 - ☐ Yn anghyffredin, llid:
 - Ysgyfaint: diffyg anadl, peswch
 - Ymennydd neu nerfau: dryswch, problemau cof, trawiadau, diffyg teimlad, ysfa, gwendid
 - Arennau: newidiadau yn y ffordd y maent yn gweithio, sy'n cael eu monitro
- Llygaid: sych, coslyd, llygaid dyfrllyd, poen, newidiadau golwg
 - Pancreas: poen yn y bol, teimlo neu fod yn sâl
 - Cyhyr y galon: poen yn y frest, crychguriadau'r galon, rhythm afreolaidd, newidiadau yng ngweithrediad y galon
 - Pledren: troethi aml neu boenus, gwaed yn yr wrin
- ☐ Anemia (celloedd gwaed coch isel), cleisio neu waedu (platennau isel), heintiau cynyddol (celloedd gwaed gwyn isel) Yn anaml, gall y system imiwnedd ymosod ar grwpiau o gelloedd gwaed ac achosi cyflyrau gwaed eraill.
 - ☐ Blinder a theimlo'n wan.
 - ☐ Teimlo'n sâl (cyfog), neu fod yn sâl (chwydu).
 - ☐ Ceg ddolurus ac wlserau.
 - ☐ Ceg sych.
 - ☐ Gwallt yn teneuo neu golli gwallt.
 - ☐ Adweithiau tra rhoddir triniaeth ac adweithiau alergaidd: symptomau tebyg i fflw, pwysedd gwaed uchel neu isel, pyliau o wres, diffyg anadl, curiad calon cyflym, poen safle pigiad.
 - ☐ Tymheredd uchel (twymyn).
 - ☐ Newidiadau mewn pwysedd gwaed.
 - ☐ Problemau gyda chwsg.
- ☐ imiwnedd rhag sgîl-ffeithiau. Gallant fod yn barhaol ac angen triniaeth hirdymor. Mae gan y meddyginiaethau hyn eu sgîl-ffeithiau eu hunain a all fod yn ddifrifol weithiau.
 - ☐ Gall cancer a'i driniaeth gynyddu'r risg o geulad gwaed (thrombosis) gan achosi poen, cochni, chwyddo mewn braich neu goes, diffyg anadl, poen yn y frest, strôc. Dywedwch wrth eich meddyg ar unwaith os oes gennych symptomau.
 - ☐ Newidiadau yn eich cof, canolbwyntio, gallu i feddwl yn glir. Gall fod llawer o achosion i hyn gan gynnwys eich triniaeth, diagnosis neu'r ddau.
 - ☐ Gall pob cyffur mewnwythiennol ollwng allan o'r wythien a niweidio'r meinwe o'i chwmpas wrth gael ei roi (elifiad). Mae'n anghyffredin ond mae'n bwysig delio ag ef yn gyflym. Dywedwch wrth nyrs ar unwaith os oes gennych chi losg, poen, cochni, chwyddo o amgylch y wythien.
 - ☐ Efallai y cewch brofion gwaed i wirio am feirysau fel Hepatitis B, Hepatitis C, HIV, neu heintiau mwy anarferol. Gallai heintiau fel y rhain waethygu neu ddod yn actif eto os ydych wedi eu cael yn y gorffennol. Efallai y bydd angen meddyginiaethau arnoch i atal neu drin haint.
 - ☐ Mae rhai meddyginiaethau gwrth-ganser yn niweidio ofariau a sberm, a all achosi anffrwythlondeb a/neu menopos cynnar.

Gwybodaeth arall:

- ☐ Efallai y bydd angen triniaeth â steroidau, hormonau neu feddyginiaethau i atal y system

Efallai y bydd gennych un neu fwy o'r sgîl-ffeithiau a restrir

- ☐ Mae rhai meddyginiaethau gwrth-ganser yn niweidio datblygiad babi yn y groth. Mae'n bwysig peidio â beichiogi na gwneud rhywun arall yn feichiog yn ystod triniaeth ac am sawl mis wedyn. Defnyddiwch ddulliau atal cenhedlu effeithiol yn ystod y cyfnod hwn.
- ☐ Yn achlysurol iawn, gall cymhlethdodau triniaeth fygwth bywyd a gallant arwain at farwolaeth. Mae'r risgiau'n wahanol i bob unigolyn. Mae cymhlethdodau a allai fygwth bywyd yn cynnwys y rhai a restrir ar y ffurflen hon ond gall effeithiau hynod brin eraill fygwth bywyd.

Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol

Dynodydd/label claf

Unrhyw risgiau a gwybodaeth arall:

- ☐ Rwyf wedi trafod budd bwriadedig a risgiau y driniaeth a argymhellir, ac unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth).
- ☐ Rwyf wedi trafod sgîl-ffeithiau'r driniaeth a argymhellir, a allai effeithio ar y claf ar unwaith neu yn y dyfodol, ac y gallai fod rhai sgîl-ffeithiau heb eu rhestru oherwydd eu bod yn brin neu nad ydynt wedi'u hadrodd eto. Gall pob claf brofi sgîl-ffeithiau yn wahanol.
- ☐ Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys (gan gynnwys triniaeth claf mewnol/allanol, amseriad y driniaeth, profion gwaed ac unrhyw brofion ychwanegol, apwyntiadau dilynol ac ati) a lleoliad.
- ☐ Rwyf wedi egluro i'r claf bod ganddo'r hawl i atal y driniaeth hon ar unrhyw adeg ac y dylai gysylltu â'r ymgynghorydd neu'r tîm cyfrifol os yw'n dymuno gwneud hynny.
- ☐ Rwyf wedi trafod pryderon sydd o bwys arbennig i'r claf o ran triniaeth (ysgrifennwch y manylion yma): _____

Canllaw cynllun clinigol/Cydymffurfio â phrotocol (ticiwch):

- ☐ Ie ☐ Na ☐ Ddim ar gael Os Na, nodwch y rheswm yma: _____

Mae'r wybodaeth ysgrifenedig ganlynol wedi'i darparu:

- ☐ Taflen wybodaeth ar gyfer: _____
- ☐ Manylion cyswllt cerdyn rhybuddio 24 awr neu wasanaeth cynghori SACT
- ☐ Cofnod triniaeth SACT (cruk.org/treatment-record)
- ☐ Arall, nodwch: _____

Manylion gweithiwr iechyd proffesiynol:

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): _____

Teitl swydd: _____

Datganiad cyfieithydd (lle bo'n briodol)

Cyfeirnod bwcio cyfieithydd (os yw'n berthnasol):

Rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd y credaf y gallant ei deall.

Llofnodwyd: _____ Dyddiad: _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): _____ Teitl swydd: _____

Datganiad y claf

Dynodydd/label claf

Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus. Os yw eich triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw, dylai fod gennych eisoes eich copi eich hun o'r ffurflen sy'n disgrifio buddion a risgiau'r driniaeth arfaethedig. Os na, cynigir copi i chi nawr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, gofynnwch - rydym yma i'ch helpu. Mae gennych hawl i newid eich meddwl unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon.

☐ Rwyf wedi cael digon o amser i ystyried fy opsiynau a gwneud penderfyniad am driniaeth.

☐ Rwy'n cytuno â'r cwrs o driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon

Dylai tyst lofnodi isod os nad yw'r claf yn gallu lofnodi ond wedi nodi ei gydsyniad. Gofynnir i berson â chyfrifoldeb rhyant lofnodi ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed.

Llofnod y claf: _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): _____ Dyddiad: _____

Llofnod person â chyfrifoldeb rhyant/tyst: _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): _____ Dyddiad: _____

Derbyniwyd copi gan y claf: do / naddo (rhowch gylch)

Cadarnhad o gydsyniad

(gweithiwr iechyd proffesiynol i'w gwblhau pan fydd y claf yn mynychu am driniaeth, os yw'r claf wedi lofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)

Ar ran y tîm sy'n trin y claf, rwyf wedi cadarnhau nad oes gan y claf unrhyw gwestiynau pellach a'i fod yn dymuno i gwrs y driniaeth/gweithdrefnau fynd yn ei flaen.

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): _____

Teitl swydd: _____

Nodiadau pwysig: (ticiwch os yn berthnasol)

☐ Gweler hefyd benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth

☐ Claf wedi tynnu caniatâd yn ôl (gofynnwch i'r claf lofnodi a dyddio yma)

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Gwybodaeth bellach i gleifion

Manylion cyswllt (os yw claf yn dymuno trafod opsiynau yn ddiweddarach):

Cysylltwch â'ch tîm ysbyty os oes gennych unrhyw gwestiynau am ganser a'i driniaeth.

Gall Cancer Research UK hefyd helpu i ateb eich cwestiynau am ganser a thriniaeth. Os hoffech siarad yn gyfrinachol, ffoniwch ein nyrsys gwybodaeth ar radffôn 0808 800 4040, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm. Neu ewch i cruk.org am fwy o wybodaeth.

Mae'r ffurflenni hyn wedi'u cynhyrchu gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Guy's a St. Thomas fel rhan o brosiect cenedlaethol i gefnogi clinigwyr i sicrhau bod pob claf yn cael yr holl wybodaeth wrth gydsynio i SACT.

Cefnogir y prosiect gan Cancer Research UK.

Nid yw hyn yn golygu eich bod yn cymryd rhan mewn treial clinigol.



Canllawiau i weithwyr iechyd proffesiynol

(i'w darllen ar y cyd â pholisi caniatâd yr ysbyty)

Dynodydd/label claf

Ar gyfer beth mae ffurflen ganiatâd

Mae'r ffurflen hon yn dogfennu cytundeb y claf i fwrw ymlaen â'r driniaeth a gynigiwyd gennych. Nid yw'n ildiad cyfreithiol – os nad yw cleifion, er enghraifft, yn cael digon o wybodaeth i seilio eu penderfyniad arni, yna efallai na fydd y caniatâd yn ddilys, er bod y ffurflen wedi'i llofnodi. Mae gan gleifion hefyd yr hawl i newid eu meddwl ar ôl llofnodi'r ffurflen, os ydynt yn cadw'r galluedd i wneud hynny. Dylai'r ffurflen fod yn gymorth cof i weithwyr iechyd proffesiynol a chleifion, drwy ddarparu rhestr wirio o'r math o wybodaeth y dylid ei chynnig i gleifion, a thrwy alluogi'r claf i gael cofnod ysgrifenedig o'r prif bwyntiau a drafodwyd. Ni ddylid ystyried y wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir ar gyfer y claf mewn unrhyw ffordd yn lle trafodaethau wyneb yn wyneb â'r claf.

Y gyfraith ar gydsyniad

Gweler y cyhoeddiadau canlynol am grynodedd cynhwysfawr o'r gyfraith ar gydsyniad. Cydsyniad: Cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, GMC 2020 (gmc-uk.org/guidance). Canllaw cyfeirio i ganiatâd ar gyfer archwiliad neu driniaeth, Yr Adran Iechyd, 2il argraffiad 2009 (doh.gov.uk).

Pwy all roi caniatâd

Tybir bod gan bawb 16 oed neu hŷn y galluedd i roi caniatâd drostynt eu hunain, oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb. I bobl ifanc, mae'n arfer da cynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn y trafodaethau caniatâd, oni bai y gofynnir yn benodol iddynt beidio â gwneud hynny. Rhaid i berson â chyfrifoldeb rhiant lofnodi'r ffurflen hon ar gyfer plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed. Dylai cleifion o'r fath gael y cyfle i 'gydsynio' i driniaeth os dymunant. Os oes gan glaf y galluedd i roi caniatâd ond nad yw'n gallu llofnodi ffurflen yn gorfforol, dylech lenwi'r ffurflen hon fel arfer a gofyn i dyst annibynnol gadarnhau bod y claf wedi rhoi caniatâd ar lafar neu'n ddieiriau.

Pryd NA ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon

Os nad oes gan y claf y galluedd i roi caniatâd, dylech ddefnyddio ffurflen arall sydd ar gael at y diben hwn (yn dibynnu ar oedran y claf). Nid oes gan glaf alluedd os oes ganddo nam neu aflonyddwch ar yr ymennydd, sy'n effeithio ar y ffordd y mae ei feddwl yn gweithio. Er enghraifft, os na allant wneud un o'r canlynol:

- deall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i'w wneud
- cadw'r wybodaeth honno yn eu meddwl
- defnyddio neu bwysu a mesur y wybodaeth hon fel rhan o'u proses benderfynu, neu

- cyfleu eu penderfyniad (drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall)

Dylech bob amser gymryd pob cam rhesymol (er enghraifft cynnwys cydweithwyr mwy arbenigol) i gefnogi claf i wneud ei benderfyniad ei hun, cyn dod i'r casgliad na all wneud hynny. Ni ellir gofyn i berthnasau lofnodi ffurflen ar ran oedolyn sydd heb alluedd i gydsynio drostynt eu hunain, oni bai eu bod wedi cael yr awdurdod i wneud hynny dan Atwrneiaeth Arhosol neu fel dirprwy llys.

Gwybodaeth

Mae gwybodaeth am yr hyn y bydd y driniaeth yn ei olygu, ei buddion a'i risgiau (gan gynnwys sgîl- effeithiau a chymhlethdodau) a dewisiadau amgen i'r driniaeth benodol a gynigir, yn hanfodol i gleifion wrth iddynt wneud eu penderfyniadau. Mae'r llysoedd wedi datgan y dylid hysbysu cleifion am 'risgiau sylweddol a fyddai'n effeithio ar farn claf rhesymol'. Nid yw 'sylweddol' wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol, ond mae'r GMC yn mynnu bod meddygon yn dweud wrth gleifion am risgiau 'sylweddol, anochel neu sy'n digwydd yn aml'. Os bydd cleifion yn ei gwneud yn glir bod ganddynt bryderon penodol am fathau penodol o risg, dylech sicrhau eu bod yn cael gwybod am y risgiau hyn, hyd yn oed os ydynt yn fach iawn neu'n brin. Dylech bob amser ateb cwestiynau yn onest. Weithiau, gall cleifion ei gwneud yn glir nad ydynt am gael unrhyw wybodaeth am yr opsiynau, ond eu bod am i chi benderfynu ar eu rhan. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech wneud eich gorau i sicrhau bod y claf yn cael gwybodaeth sylfaenol iawn o leiaf am yr hyn a gynigir. Os gwrthodir gwybodaeth, dylech gofnodi hyn ar y ffurflen ganiatâd neu yn nodiadau'r claf.

GIG yr Alban

Dylai staff GIG yr Alban gyfeirio at Welliant Gofal Iechyd yr Alban Canllawiau ar gydsyniad ar gyfer SACT a chanllawiau Byrddau GIG lleol ar gydsyniad sy'n cyd-fynd â fframwaith cyfreithiol yr Alban.

Cyfeiriadau:

1. Crynodeb o Nodweddion Cynnyrch ar gyfer cyffuriau unigol: medicines.org.uk/emc
2. Cancer Research UK: cruk.org/about-cancer/treatment/drugs
3. Cymorth Cancer Macmillan: macmillan.org.uk/cancer-information-and-support/treatments-and-drugs
4. Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Guy's a St. Thomas, Ffurflen ganiatâd cemotherapi